# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 18 MEDI, 2014 am 2.00 o'r gloch** | | **THURSDAY, 18 SEPTEMBER, 2014 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES LANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

P.S. Rogers

**A G E N D A**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Mehefin, 2014.

3 **GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD** (Tudalennau 5 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dro Dro.

4 **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU** (Tudalennau 29 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

5 **GRANT DATBLYGU GWEFANNAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED - DIWEDDARIAD** (Tudalennau 31 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

6 **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/15** (Tudalennau 33 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, R Meirion Jones, R G Parry, OBE, Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Y Cynghorwyr Aled M Jones, Nicola Roberts, Trefor Ll Hughes |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd (JHJ)<br>Uwch Swyddog AD (MW)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor/Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SC) |

---

### 1 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Richard Owain Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

### 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2014 fel rhai cywir.

### 4 AMSER CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfeirio at Rybudd o Gynigiad a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 8 Mai 2014 ii'r Pwyllgor hwn adolygu ymhellach Amser Cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor fod Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi cynigion ar gyfer 2015 ymlaen yn cynnwys opsiynau i gynnal cyfarfodydd ar ddiwrnodau penodol yn ystod yr wythnos a bod cynrychiolydd o bob Grŵp yn cynorthwyo gyda'r broses hon.**

### 5 SICRHAU DEMOCRATIAETH AMRYWIOL MEWN LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfeirio at yr argymhellion allweddol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2014 - *'Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru'.* Nodwyd y byddai'n rhaid i lywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol roddi sylw i'r argymhellion. Nodwyd ymhellach fod CLlLC wrthi'n ystyried yr argymhellion. Yn ychwanegol at hyn,

dywedwyd bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn sefydlu rhwydwaith o Eiriolwyr Amrywiaeth a bod cais wedi dod i law yn gofyn i'r Cyngor enwebu Aelod i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor hwn yn cael gwybod yn y man am unrhyw gynnydd.**

## 6 MYNYCHU O BELL

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfeirio at gynnwys adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ynghylch yr uchod. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y ddarpariaeth ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sydd wedi cael eu gweithredu ac sy'n nodi mai rhywbeth dewisol yw mynychu o bell. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn manylu ar nifer o faterion yn ymwneud â'i weithredu a nifer o ystyriaethau technegol a goblygiadau o ran adnoddau y byddai'n rhaid eu hystyried.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor a gwneud sylwadau.

**PENDERFYNWYD argymell na ddylid cefnogi defnyddio'r ddarpariaeth mynychu o bell oherwydd y pryderon technegol a'r goblygiadau posibl o ran adnoddau y sonnir amdanynt yn yr adroddiad.**

## 7 ABSENOLDEB TEULU

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor hwn ar adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor mewn perthynas â'r gofynion dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n ymwneud ag absenoldeb teulu ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol. Nodwyd y byddai angen gwneud rhai newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn cwrdd â'r gofynion yn y rheoliadau ac roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at sefydlu is-bwyllgor o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i bwrpas gwrando ar apeliadau dan y Mesur.

**PENDERFYNWYD nodi'r gofynion y manylion arnynt yn yr adroddiad a chynghori'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn eu cylch.**

## 8 CYNLLUN DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU 2014/15

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Adnoddau Dynol at y Cynllun Blynyddol ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Aelodau a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 8 Mai. Nodwyd bod hwn yn ffurfio rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu aelodau ac i sicrhau'r Siarter Datblygu Aelodau. Nodwyd hefyd bod angen targedau hyfforddiant i anghenion penodol a darparu manylion am yr hyfforddiant y bwriedir ei gynnal gan gymryd baich gwaith yr Aelodau i ystyriaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 GRANT AR GYFER GWEFANNAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – Y DIWEDDARAF

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi diweddariad ynghylch nifer y Cynghorau Tref a Chymuned a oedd wedi hawlio'r grant. Nodwyd bod 32 o Gynghorau hyd yma wedi hawlio'r grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan y Cyngor ac a oedd ar gael yn ystod 2014/2015. Hefyd, rhoddwyd diweddariad i'r cyfarfod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2014 gan eu hatgoffa o'r arian a oedd ar gael iddynt i ddatblygu gwefannau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETH DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD PWYLLGOR:** | **19/09/2014** |
| **TEITL:** | **GWE-DDARLLEDU CYFARFODYDD** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR** |

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar gynnydd yn sgil cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar 26 Mawrth, 2014. Bydd Aelodau yn ymwybodol fod cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn rhan o'r peilot.

**Hyfforddiant**

Fel rhan o'r gwaith paratoi trefnwyd hyfforddiant i Aelodau ar y dyddiadau canlynol:

02 Mai, 2014
28 Mai, 2014
03 Mehefin, 2014
16 Gorffennaf, 2014
30 Awst, 2014

Gwe-ddarlledwyd y cyfarfodydd canlynol hyd yma ar adeg paratoi'r Adroddiad hwn:

| Cyfarfod | Dyddiad |
|---|---|
| Pwyllgor Gwaith | 09/06/2014, 14/07/2014 |
| Cyngor Sir | 29/07/2014 |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 03/09/2014 |

**Ystadegau**

Mae cyfanswm o 3,656 wedi ymweld â safle we y Cyngor (naill ai i ddilyn cyfarfodydd yn fyw neu i weld y fersiwn a archifwyd)

| Cyfarfodydd | Cyfanswm ymweliadau i safle we y Cyngor |
|---|---|
| Pwyllgor Gwaith 09/06/2014 | 2299 (161 byw a 2138 i weld y fersiwn a archifwyd) |
| Pwyllgor Gwaith 14/07/14 | 714 (64 byw a 650 i weld y fersiwn a archifwyd) |
| Cyngor Sir 29/07/2014 | 485 (28 byw a 457 i weld y fersiwn a archifwyd) |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion 03/09/2014 | 158 (32 byw a 126 i weld y fersiwn a archifwyd) |

Mae'r ystadegau yn ganolog i hyrwyddo gweithredu agored ac atebolrwydd a chyfranogiad ehangach yn nhrefniadau democrataidd y Cyngor. Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol yn bennaf i hyrwyddo gwe-ddarlledu cyfarfodydd.

**<u>Protocol</u>**

Lluniwyd protocol drafft ar gyfer gwe-ddarlledu cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Mae'r protocol yn adlewyrchu'r canllawiau a baratowyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae copi o'r protocol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 a hefyd canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Atodiad 2 (er gwybodaeth)
Yn amodol ar unrhyw sylw gan y Pwyllgor, bwriedir dosbarthu'r protocol i Aelodau a Swyddogion.

**<u>Argymhellion</u>**

1) Nodi'r cynnydd ar we-ddarlledu fel y manylir yn yr adroddiad a derbyn adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.
2) Ystyried y protocol drafft ar we-ddarlledu cyn ei ddosbarthu i Aelodau a Swyddogion.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd Dros Dro**
**05/09/14**

# Protocol Gweddarlledu Cyngor Sir Ynys Môn

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd rhai cyfarfodydd yn cael eu 'gweddarlledu' yn fyw a'u recordio ar gyfer eu darlledu wedyn. Gosodwyd pedwar o gamerâu sefydlog yn Siambr y Cyngor i'r pwrpas hwn.

Bydd y cyfarfodydd isod a gynhelir yn Siambr y Cyngor yn cael eu gweddarlledu:

- Y Cyngor
- Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor Cynllunio

Mae'r protocol hwn wedi cael ei lunio er mwyn cynorthwyo'r broses o weddarlledu cyfarfodydd ac er mwyn sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud hynny, yn cydymffurfio gyda'i gyfrifoldebau dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. O'r herwydd, bydd yr isod yn berthnasol i'r holl gyfarfodydd a fydd yn cael eu gweddarlledu gan y Cyngor.

## 2. Darpariaethau Cyffredinol

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor yr hawl i ofyn am gael rhoi'r gorau i weddarlledu'r cyfarfod neu ei ohirio os byddai parhau i weddarlledu'n amharu ar y cyfarfod.

Byddai hyn yn cynnwys:

- Sylwadau ddifenwol neu'n anweddus yn cael ei wneud
- Y cyhoedd yn amharu ar y cyfarfod neu unrhyw reswm arall;
- Cynigydd ac eilydd i gau allan y cyhoedd a'r wasg;
- Unrhyw reswm arall sy'n cael ei gynnig a'i eilio a'i gefnogi gan y Cyngor/Pwyllgor.
- Unrhyw weithred arall sy'n torri unrhyw gyfraith berthnasol lleol, cenedlaethol neu ryngwladol neu reoliadau, neu unrhyw weithred sy'n fel arall yn dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.

**2.1** Ni fydd unrhyw eitemau eithriedig neu gyfrinachol ar y rhaglen yn cael eu gweddarlledu.

**2.2** Ni fydd lluniau o blant dan 18 oed yn cael eu gweddarlledu.

**2.3** Mewn achos o weiddi sylwadau anweddus, bydd y gweddarllediad yn cael ei seibio o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd neu ei olygu ôl-gynhyrchu gyda chaniatâd penodol y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol) gan bod ein gweddarllediadau ar gael i bobl o bob oed. Gweler eitem 10

**2.4 Hawlfraint**

Y Cyngor yw 'awdur' gweddarllediad p'un a yw'n gyfarfod byw neu'n gyfarfod sydd wedi ei archifo. I bob pwrpas, mae'n berchennog yr hawlfraint. Os bydd unrhyw un, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, yn dymuno ei ddefnyddio dylent ofyn am ganiatâd gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r Cyngor yn cymryd camau cyfreithiol os defnyddir y gweddarllediad i

ddibenion dilys a chadarnhaol e.e. er mwyn rhoi gwybodaeth a hyfforddiant. Os defnyddir gweddarllediad yn amhriodol, e.e. i ddibenion gwleidyddol neu i ddychanu, gallai'r Cyngor gymryd camau cyfreithiol. Mae gwefannau rhannu fideos fel YouTube a Google Video yn dweud yn eu hamodau a'u telerau bod angen hawlfraint a chaniatâd pawb sydd yn y fideo cyn y gellir eu cyhoeddi yno.

**2.5 Deddf 'Diogelu Data'**

Nid yw'n debygol y bydd y Ddeddf Diogelu Data yn cael effaith ar ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor oherwydd na ddylid trafod gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag unigolion mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus, pun a yw'n cael ei ddarlledu a'i peidio. Yn achos eitemau eithriedig, lle mae'r cyhoedd a'r wasg wedi eu cau allan, bydd y cyfarpar darlledu yn cael ei droi i ffwrdd a bydd neges yn cael ei ddangos yn dweud pam fod y darllediad wedi dod i ben am y tro.

**2.6 Rhyddid Gwybodaeth**

Ni ddylai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fod yn berthnasol i ddarllediadau oherwydd nad yw ond yn berthnasol i wybodaeth nad yw eisoes yn y parth cyhoeddus. Os bydd pobl yn gofyn am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sydd eisoes wedi ei darlledu neu sydd eisoes ar gael ar y wefan trwy archif o'r cyfarfodydd nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar y Cyngor i ymateb.

## 3. Cyn y cyfarfod

**3.1 Tudalennau Blaen y Rhaglen ac Arwyddion yn y Cyfarfodydd**

Rhoddir y rhybudd canlynol ar dudalen flaen pob rhaglen berthnasol ac ar arwyddion y tu mewn a'r tu allan i Siambr y Cyngor:

**RHYBUDD GWEDDARLLEDU**

*"Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio ar gyfer ei ddarlledu'n fyw ac/neu yn nes ymlaen ar wefan y Cyngor. Bydd y cyfarfod cyfan yn cael ei ffilmio ac eithrio eitemau cyfrinachol neu rai y gwneir eithriad ohonynt, a bydd y darllediad ar y wefan am 6 mis. Bydd copi DVD o'r cyfarfod yn cael ei gadw hefyd yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.*

*Os byddwch yn gwneud sylwadau yn y cyfarfod, fe gymerir eich bod wedi caniatáu i gael eich ffilmio oni bai eich bod wedi cysylltu gyda Gwasanaethau Democrataidd neu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod i ddweud nad ydych yn dymuno cael eich ffilmio. Drwy fynd i mewn i'r Siambr, rydych hefyd yn rhoi eich caniatâd i gael eich ffilmio ac i'r lluniau a'r recordiadau sain hynny o bosibl gael eu defnyddio i bwrpas gweddarlledu ac/neu hyfforddiant. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch gweddarlledu cyfarfodydd, yna cysylltwch gyda Gwasanaethau Democrataidd os gwelwch yn dda ar 01248 752514"*

**3.2 Cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a Gwrandawiadau 'Lled-farnwrol' Eraill**

Mewn gohebiaeth sy'n rhoi gwybod i ymgeiswyr, cefnogwyr neu wrthwynebwyr am ddyddiad y cyfarfod lle bydd y cais yn cael ei drafod, bydd y cyngor isod yn cael ei gynnwys os bydd y cyfarfod penodol hwnnw'n cael ei weddarlledu:



DRAFT

*'Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod. Os ydych yn dymuno dod i'r cyfarfod ond ddim yn dymuno cael eich ffilmio, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar 01248 752108 i drafod y trefniadau.*

**3.3 Rhaglen y Pwyllgor**

Bydd y nodyn isod hefyd yn cael ei ychwanegu at Raglen pob Pwyllgor:

*'Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod."*

## 4. Cynnal Cyfarfodydd

**4.1** Bydd gweddarllediadau yn cychwyn ar ddechrau cyfarfod pan fydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod ac yn dod i ben ar adeg cau'r cyfarfod.

**4.2** Ar ddechrau pob cyfarfod a fydd yn cael ei ffilmio, gwneir cyhoeddiad yn egluro fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu, fel a ganlyn:

*"Hoffwn atgoffa pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod hwn y bydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar y Rhyngrwyd ac y bydd modd edrych arno wedyn.*

*Os ydych yn eistedd yn Siambr y Cyngor, mae'n debygol y bydd eich llun ar y camerâu. Cymerir yn ganiataol eich bod yn cytuno i gael eich ffilmio ac i'r delweddau hynny a'r recordiadau sain gael eu defnyddio i bwrpas gweddarlledu ac/neu ar gyfer hyfforddiant. Os ydych yn siarad yn y cyfarfod hwn, bydd eich cyfraniad yn cael ei recordio a'i ddarlledu oni bai eich bod wedi cysylltu gyda'r Gwasanaethau Democrataidd neu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod i ddweud nad ydych yn dymuno cael eich ffilmio."*

**4.3. Rhoi'r gorau i weddarlledu yn ystod sesiynau preifat**

Ni fydd unrhyw ran o'r cyfarfod a gynhelir yn cael ei weddarlledu ar ôl i'r aelodau gymeradwyo penderfyniad i gau'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol ei datgelu. Bydd clerc y cyfarfod yn sicrhau y rhoddwyd y gorau i ffilmio ac/neu'r recordio'r cyfarfod a bydd yn cadarnhau hynny i Gadeirydd y cyfarfod cyn cychwyn y drafodaeth ar unrhyw faterion eithriedig neu gyfrinachol.

Dylai'r Cadeirydd sicrhau fod saib yn y cyfarfod rhwng yr eitemau cyhoeddus a'r eitemau cyfrinachol ar y rhaglen er mwyn rhoi digon o amser i weithredwr y system sicrhau fod y system wedi ei hatal ac nad oes unrhyw faterion cyfrinachol yn cael eu recordio.

DRAFT

**4.4. Siarad yn y cyfarfod**.

4.4.1 Nid yw'r meicroffonau radio yn gweithredu'r camerâu, felly os oes gan siaradwyr gyflwyniad, rhaid iddynt naill ai sefyll wrth y podiwm neu ddefnyddio un o'r meicroffonau sefydlog yn y seddau a neilltuwyd ar eu cyfer.

4.4.2 Os bydd problem dechnegol yn datblygu, dylai'r Cadeirydd gytuno i ohiriad byr er mwyn gweld a fedrir datrys y broblem. Os bydd y broblem yn parhau ar ôl 15 munud, dylid parhau â'r cyfarfod er na fydd yn cael ei recordio.

Dilynir y weithdrefn isod:

- Bydd gweithredwr y system yn rhoi gwybod i'r Cadeirydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl
- Bydd gweithredwr y system hefyd yn rhoi gwybod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fel y gall rannu'r wybodaeth hon gydag arweinyddion y grwpiau gwleidyddol a chynnwys eglurhad ynghylch yr hyn aeth o'i le, yr hyn sy'n cael ei wneud i adfer unrhyw ddata a gollwyd a'r camau lliniaru y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol.
- Pan yn golygu unrhyw gynnwys, dilynir yr un drefn ag yr amlinellir uchod. Gweler eitem 10 isod os gwelwch yn dda.

Pan fydd y cynnwys yn cael ei olygu, yna dilynir yr un drefn â'r uchod. Gweler eitem 10 isod os gwelwch yn dda.

4.4.3 Bydd angen i'r Cynghorwyr eistedd yn y seddau a neilltuwyd iddynt gyda phlât enw. Mae seddau penodol wedi cael eu neilltuo ar eu cyfer ac ni ddylai Aelodau ond siarad o'r seddau hynny. Mae hyn yn bwysig oherwydd, yn ystod y recordiad byw, bydd enw'r siaradwr yn ymddangos yn y mynegai ar y gweddarlllediad.

4.4.4 Gofynnir i Aelodau a Swyddogion siarad yn uniongyrchol i'r meicroffon. Gofynnir i fynychwyr osgoi symud heb fod rhaid tra'n siarad ac i beidio â gwneud gormod o ystumiau gyda'u dwylo; oherwydd bod y recordiad fideo'n hynod gywasgedig, mae unrhyw symudiad yn achosi picselu dros dro gyda hynny'n amharu ar safon y llun.

4.4.5 Ni ddylai Aelodau siarad oni fyddant wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Cadeirydd er mwyn sicrhau mai un person yn unig fydd yn siarad ar y tro.

4.4.6 Mae'n bwysig nodi y gall mynychwyr fod yn cael eu ffilmio pan mae pobl eraill yn siarad. Efallai y bydd pobl yn gwylio'r recordiad byw ar y rhyngrwyd.

4.4.7 Argymhellir na ddylid gwisgo lliwiau llachar/deunyddiau streipïog oherwydd gall y rhain ystumio'r delweddau sy'n cael eu darlledu'n fyw.

4.4.8 Gellir rhoi'r gorau i weddarlledu'n fyw os ceir achosion o ymddygiad amhriodol.

4.4.9 Ni fydd unrhyw beth sydd y tu allan i sgôp y cyfarfod yn cael ei ffilmio. Mae hyn yn cynnwys ffilmio ymateb pobl, pobl yn cerdded allan ac ati. Os yw gweithredwr yn ansicr ynghylch beth i'w

DRAFT

ffilmio neu os ydyw mewn sefyllfa anghyfarwydd, yna dylai'r gweithredwr bob amser ddangos golygfa safonol y cytunwyd arni.

4.4.10 Dylai siaradwyr fod yn uniongyrchol, yn gryno gan siarad i bwrpas. Dylai aelodau a swyddogion osgoi jargon ac 'ieithwedd y cyngor'.

4.4.11 Cynghorir y dylid paratoi cyfraniadau ymlaen llaw (pwyntiau bwled sy'n hwyluso llefarydd naturiol yn hytrach nag araith a baratowyd).

4.4.12 Dylai siaradwyr fod yn ymwybodol o'r modd y gallai'r gynulleidfa a'r cyfryngau ddehongli'r negeseuon .

4.4.13 Efallai y bydd angen i'r holl siaradwyr fod yn fwy eglur ynghylch peth o'r wybodaeth y maent yn ei rhoi fel ei fod yn glir i leygwyr beth maent yn ei wneud a pham. Mae datgan diddordeb yn enghraifft dda. Byddai o gymorth i ddweud nid yn unig bod ganddynt ddiddordeb ond egluro hefyd a yw'n ddiddordeb personol ynteu ddiddordeb rhagfarnus a hefyd sut maent yn bwriadu gweithredu o ganlyniad.

4.4.14 Nid yw heclo'n gweithio'n dda ar weddarllediad oherwydd fel arfer dim ond y Cadeirydd a'r Aelod sy'n siarad y gellir ei gweld a'u clywed. Mae sylwadau eraill a wneir yn anodd i'w deall yn aml oherwydd nad yw'r meicroffon yn ddigon agos.

**4.5. Sŵn o'r meicroffonau a sŵn sy'n amharu ar y recordiad**

Mae sŵn o'r meicroffonau yn sŵn artiffisial sy'n digwydd pan fydd rhywbeth yn cyffwrdd y meicroffon. O'r herwydd, dylai siaradwyr gymryd gofal i beidio â chyffwrdd pen y meicroffon neu'r cebl yn ystod y cyfarfod. Dylai aelodau a swyddogion siarad yn uniongyrchol i'r meicroffon ac ni ddylent osod unrhyw beth rhyngddynt eu hunain a'r meicroffon.

4.6 Sgiliau Personol

4.6.1 Wrth ystyried beth i'w wisgo, cofiwch gadw bob un o onglau'r camera mewn cof a gofalu nad ydych chi'n gwisgo dillad na gemwaith a allai gyffwrdd a'r meicroffon a rhwystro wylwyr glywed eich geiriau.

4.6.2 Byddwch yn ymwybodol o faes gweledlad y camera oherwydd y gall siarad gyda chydweithwyr, bwyta, addasu dillad ac ati pan fyddwch yng ngolwg y camera dynnu sylw'r gwylwyr oddi wrth y sawl sy'n siarad.

4.6.3 Byddwch yn ymwybodol o iaith y corff. O fethu ag eistedd yn unionsyth, gellir rhoi argraff fod yr aelod wedi colli diddordeb.

**5. Sgiliau Cadeirydd**

Mae cadeirio'r cyfarfod yn holl bwysig i'r profiad ar gyfer y cyhoedd sy'n gwylio, yr un fath yn union â phebai'r oriel gyhoeddus yn llawn. Dyma rai cynghorion i'r cadeiryddion eu hystyried:

- Cyflwyno'r bobl allweddol fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod fel y bydd y gwylwyr yn gwybod pwy ydyn nhw. Gallai hyn gynnwys y Cadeirydd ei hun, swyddogion a thystion. Mae'n bwysig dweud beth yw eu rôl yn y cyfarfod, hefyd.

- Dylai'r Cadeirydd fod yn fodlon esbonio rhai o weithdrefnau'r cyfarfod os nad yw'r rheini'n amlwg i'r gwylwyr.
- Bod yn fodlon gorfodi cyfyngiadau amser ar siaradwyr, naill a'i trwy weithdrefn ffurfiol neu os yw cyfraniad siaradwr yn hir ac yn anghynhyrchiol.
- Rhaid i'r Cadeirydd atgoffa pawb bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ac y bydd ar gael yn y dyfodol ar y rhyngrwyd.
- Rhaid egluro'r gwahanol elfennau ar y rhaglen, megis yr eitemau sydd er gwybodaeth a'r eitemau y mae angen gwneud penderfyniad arnynt neu bleidleisio yn eu cylch. Yn ogystal, os fydd y gweddarllediad yn cael ei atal er mwyn trafod materion cyfrinachol neu eithriedig bydd angen i'r Cadeirydd ddweud pa bryd a pam y mae hynny'n digwydd.

**6 Swyddogion sy'n Mynychu**

Rhoddir gwybod i swyddogion sy'n siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor y bydd y cyfarfod i'w weld yn fyw ar y rhyngrwyd ac y bydd copi o'r cyfarfod yn cael ei gadw ar DVD. Os na fydd y swyddog sy'n mynychu yn dymuno cael ei ffilmio tra'n annerch y pwyllgor, bydd gweithredwr y system weddarlledu yn:

- Rhoi cyngor ynglŷn â'r lle gorau i eistedd
- Sicrhau na fydd unrhyw luniau agos o'r swyddog yn cael eu cymryd
- Os yw'r swyddog yn siarad, bydd gweithredwr y system yn dangos golygfa safonol y cytunwyd arni.

**7 Mynychwyr**

Fel rhan o'r broses ar gyfer cofrestru i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor, rhoddir gwybod i drigolion y bydd y cyfarfod yn ymddangos yn fyw ar y rhyngrwyd ac y bydd copi o'r cyfarfod yn cael ei gadw ar DVD. Os na fydd person sy'n mynychu yn dymuno cael ei ffilmio tra'n annerch y pwyllgor, bydd gweithredwr y system weddarlledu yn:

- Rhoi cyngor ynglŷn â'r lle gorau i eistedd
- Sicrhau na fydd unrhyw luniau agos o'r person yn cael eu cymryd
- Os yw'r person yn siarad, bydd gweithredwr y system yn dangos golygfa safonol y cytunwyd arni.

7.1 Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n siarad mewn cyfarfod sicrhau bod eu cyfraniadau yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol yn y DU ac nid yn ddifenwol, anweddus, sarhaus, yn camwahaniaethu neu'n torri hawlfraint unrhyw berson arall.

## 8. Pleidleisio

Mae'r broses bleidleisio'r un fath mewn cyfarfod sy'n cael ei ddarlledu ag ydyw mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall. Dylid gweld gweddarlledu'n syml fel estyniad o agoredrwydd cyfarfodydd sydd eisoes yn rhai cyhoeddus.

DRAFT

Bydd y camera'n panio trwy'r siambr ar adeg pleidleisio.  Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau fod pawb yn cadw eu dwylo i fyny hyd oni fydd y camera wedi gorffen panio a'r cadeirydd wedi cyfrif y pleidleisiau.

## 9. Gweddarllediadau a Archifwyd

Bydd yr holl weddarllediadau a archifwyd ar gael i edrych arnynt ar wefan y Cyngor am gyfnod o chwe mis.  Caiff cyfarfodydd y Cyngor eu recordio ar DVD a byddant yn cael eu storio'n unol â'r gweithdrefnau rheoli recordiadau.

Ni fydd gweddarllediadau neu rannau o weddarllediadau ond yn cael eu tynnu oddi ar wefan y Cyngor os yw'r Swyddog Monitro o'r farn fod angen gwneud hynny oherwydd bod y cyfan o gynnwys y gweddarllediad neu ran ohono'n debygol o dorri unrhyw ddarpariaeth statudol neu athrawiaeth cyfraith gwlad, er enghraifft deddfwriaeth neu ddarpariaethau Diogelu Data a Hawliau Dynol sy'n ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig.   Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyfreithlon ac na fydd yr angen i ymarfer y pŵer hwn ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol.

Dylai unrhyw Aelod Etholedig sydd â phryderon ynghylch unrhyw weddarllediad, godi'r rheiny gyda Pennaeth  Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

## 10. Golygu cynnwys

Ni ddylid **ond** gwneud hyn os yw'r Swyddog Monitro o'r farn bod hynny'n angenrheidiol oherwydd bod y cyfan neu ran o gynnwys y gweddarllediad yn torri'r gyfraith neu'n debygol o wneud hynny; er enghraifft bod siaradwyr cyhoeddus wedi datgelu enw person sy'n cael ei ddiogelu fel tyst, bod gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu drwy amryfusedd neu os byddir yn gwneud sylwadau difenwol.  Yn ogystal, gellir caniatáu i'r cynnwys gael ei olygu mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. bod person sydd yn y cyfarfod yn mynd yn sâl a hynny i'w weld ar y sgrin.

Mae'n amlwg nad oes modd golygu darllediad byw. Mae modd golygu darllediad sydd wedi ei archifo. Unwaith mae'r wybodaeth wedi ei harchifo mae'r deunydd ar gael ar ffeil ddigidol i'r cyhoedd ac fe ellir bod yn cyflawni trosedd trwy beidio â dileu cynnwys sarhaus megis sylwadau hiliol yn fwriadol.  Ni ddylid golygu cynnwys sydd wedi ei archifo ond os yw'r Swyddog Monitro yn ystyried bod angen gwneud hynny oherwydd bod rhan neu'r cyfan o'r gweddarllediad yn torri'r gyfraith neu'n debygol o dorri'r gyfraith; e.e. bod enw'r person sy'n cael ei diogelu fel tyst yn cael ei ddatgelu gan siaradwr cyhoeddus, neu wybodaeth bersonol gyfrinachol yn cael ei ddatgelu neu pan fo sylwadau aflednais, difenwol neu enllibus yn cael ei wneud.  Gellir awdurdodi golygu cynnwys mewn amgylchiadau eithriadol hefyd os yw rhywun sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael ei daro'n wael a'i weld ar y sgrin.

Yn yr achosion prin hynny lle bydd angen golygu – dylid cadw copi o'r recordiad sydd heb ei olygu fel tystiolaeth os bydd ei angen ar gyfer unrhyw gamau yn y dyfodol. Bydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn sicrhau y cedwir cofnod o'r gweddarllediadau hynny sy'n cael eu golygu.

DRAFT

## 11. Recordiadau neu Ddarllediadau eraill o Gyfarfodydd

Ni chaniateir unrhyw fath o ffotograffiaeth, ffilmio, recordio neu ddarlledu cyfarfodydd (ac eithrio gweddarlledu i ddibenion y Cyngor) onibai y cafwyd caniatâd penodol y Cadeirydd ymlaen llaw yn unol â'i ddisgresiwn/disgresiwn.

## 12 Adolygu'r protocol

Unwaith y bydd y system wedi bod yn weithredol am gyfnod o 6 mis, bydd y protocol uchod yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol.

## 13. Y Swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio'r Protocol

Y Prif Weithredwr, drwy'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro fydd, yn y pen draw, yn gyfrifol am y Protocol uchod.

PA/09/2014

DRAFFT

ATODIAD 2

WLGA • CLILC

# Canllawiau i gynghorwyr am weddarlledu

Awst 2014

# Cyswllt

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion WLGA yw hyrwyddo safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae awdurdodau'r tri gwasanaeth tân ac achub a'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.


**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

029 2046 8600
www.wlga.gov.uk



| | |
|---|---|
| Cyhoeddwyd: | Awst 2013 |
| Hawlfraint: | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| ISBN: | 978-1-78286-014-3 |

Diolch i'r swyddogion, y cynghorwyr a'r arbenigwyr sydd wedi helpu i lunio'r canllawiau hyn – yn arbennig Rhwydwaith Swyddogion Cynorthwyo'r Cynghorwyr, Chyfreithwyr Llywodraeth Leol, Mel Doel (sydd wedi hyfforddi cynghorwyr ar ran WLGA yn ogystal â helpu i lunio'r cynnwys) a Kevin O'Keefe o gwmni EXCELA INTERIM MANAGEMENT AND CONSULTANCY LTD (am ein cynghori am faterion cyfreithiol).



**Mae rhagor o wybodaeth gan Sarah Titcombe WLGA.**
**sarah.titcombe@wlga.gov.uk**
**029 2046 8638**

# Rhagair



Mae'n dda gyda fi gyflwyno'r llawlyfr hwn gan WLGA am ddarlledu cyfarfodydd cynghorau lleol. Mae'n rhoi braslun defnyddiol o'r pwnc ac yn cynnig awgrymiadau pwysig ynglŷn â gwneud y gorau o ddatblygiad technolegol cyffrous ac iddo bosibiliadau lu o ran gwella'r modd mae pob cyngor lleol yn ymgysylltu â phobl ei fro.

Mae gweddarlledu prif gyfarfodydd y cynghorau'n gam pwysig ymlaen ynglŷn â gofalu bod llywodraeth leol yn broses dryloyw sydd ar gael i'r cyhoedd, ac mae'n helpu pobl eisoes i ymgysylltu â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau nhw bob dydd. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn ymddiried yn eu cyngor lleol yn anad unrhyw ffordd arall o lywodraethu i gael y maen i'r wal ynglŷn â'r materion sy'n bwysicaf iddyn nhw. A ninnau ar fin dechrau un o'r cyfnodau anhawsaf erioed i fyd llywodraeth leol Cymru, fe fydd yn hanfodol i ddarlledu'n fyw sut rydyn ni'n dod i benderfyniadau allweddol i ofalu y bydd pobl yn parhau i ymddiried ynom ni.

Ynghyd â defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae darlledu cyfarfodydd cynghorau ar y we yn prysur ennill ei blwyf ym maes llywodraeth leol. O ganlyniad, bydd cymunedau'n cael gwylio'r cyngor wrth ei waith a chymryd rhan yn y penderfynu trwy wahanol gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Gobeithio y bydd y cynghorau'n parhau i wneud y gorau o'r dulliau hyn i feithrin rhagor fyth o dryloywder ac annog pobl i gymryd rhan ym mhroses democratiaeth leol.



**Y Cynghorydd Peter Fox**
Arweinydd Cyngor Sir Fynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a Chynhwysiant Digidol

## Beth yw gweddarllediad?

Mae gweddarllediad yn fideo sy'n cael ei chyhoeddi ar y we – naill ai'n fyw neu rywbryd wedyn. Fydd neb yn golygu'r fideo cyn ei darlledu ac mae modd i bawb a chanddo'r Rhyngrwyd ei gwylio'n fyw ac unrhyw bryd wedyn yn ystod y cyfnod y bydd ar wefan yr awdurdod.

Mae cynghorau ledled Cymru yn cyflwyno gweddarlledu bellach i ddangos eu cyfarfodydd amrywiol i'r cyhoedd. Mae'n amlwg bod hynny o arwyddocâd i gynghorwyr am fod modd i bobl gymryd rhan ehangach ym mhroses democratiaeth ac i waith byd llywodraeth leol fod yn fwy trylwyr. At hynny, mae'n golygu y bydd modd i bobl fwrw golwg manylach ar yr hyn mae cynghorwyr yn ei wneud ac yn ei ddweud.

## Pam mae Cymru yn gweddarlledu?

Mae cynghorau Cymru wedi ymroi i hybu democratiaeth leol a helpu pobl i gymryd rhan ynddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu cynghorau i hybu democratiaeth ac ymgysylltu ym maes llywodraeth leol trwy roi £1,125,000 yn 2013/14 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cynghorau ar y we, cyflwyno trefniadau presenoldeb o hirbell a helpu cynghorau cymuned i sefydlu gwefannau. Er nad oes rhaid i awdurdodau lleol ddarlledu eu cyfarfodydd, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwaith y Llywodraeth wedi eu hannog i ddarlledu rhai cyfarfodydd neu'r cyfarfodydd i gyd er tryloywder ac er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ôl Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol'[1] sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gofyn statudol i bob awdurdod lleol ddarlledu ei gyfarfodydd ar y we.

Mae fersiwn arfaethedig Côd Arferion Cymeradwy Cyhoeddusrwydd yr Awdurdodau Lleol[2] yn dweud bod 'pobl yn disgwyl y dylai llawer mwy o wybodaeth fod ar gael bellach – yn arbennig gwybodaeth am weithdrefnau penderfynu cyrff etholedig. Dylai cynrychiolwyr gwleidyddol groesawu hynny yn gyfle i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r etholwyr. Anogir yr awdurdodau lleol i drefnu i'w cyfarfodydd fod ar gael i'r cyhoedd trwy eu darlledu nhw.'

### Cynnydd

Mae gweddarlledu'n mynd rhagddo bellach yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ddibenion y cyfarfodydd yr ystyrir eu bod o gryn ddiddordeb i bobl – yn arbennig cyfarfodydd y cyngor cyflawn, y cabinet a'r pwyllgor cynllunio. Mae rhai cynghorau lleol yn darlledu cyfarfodydd pwyllgorau craffu, hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi penodi cwmnïau masnachol i roi'r gwasanaeth, er bod rhai wedi datblygu eu dulliau eu hunain. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Fynwy yn defnyddio Google Plus a YouTube, mae Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio Livestream i ddarlledu'n ddwyieithog ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio dull trwy Auditel a Vimeo.

---

1 http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy

2 http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/130322revisedcodelapublicitycy.pdf

Bydd nifer y rhai sy'n gwylio cyfarfodydd cynghorau ar y we yn amrywio yn ôl y math o gyfarfod ac awdurdod ond, ar y cyfan, mae nifer y rhai sy'n cyrchu gwefannau cynghorau yn awgrymu bod diddordeb pobl yn y darllediadau yn tyfu. Fel arfer, bydd mwy o bobl yn eu gwylio wedyn nac yn fyw.

## Manteision gweddarlledu

Mae gweddarlledu wedi arwain at amrywiaeth helaeth o fanteision sydd wedi'u crynhoi isod. Roedd rhai wedi'u disgwyl er bod rhai annisgwyl wedi'u nodi gan yr awdurdod yn sgîl eu profiad o ddarlledu cyfarfodydd ar y we.

### Ymgysylltu a thryloywder

- Llywodraethu ac atebolrwydd mwy agored a thryloyw.
- Ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a'u galluogi i ddeall prosesau penderfynu.
- Galluogi pobl i wylio cyfarfodydd yn haws – llai o deithio, a mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gallan nhw eu gwylio.
- Helpu pobl i ddeall swyddogaeth pwyllgorau trosolwg a chraffu yn unol â Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011.
- Hybu rhagor o ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol tra bo cyfarfod yn mynd rhagddo.
- Rhoi papurau a chyflwyniadau pob cyfarfod ar gael i bobl yn ogystal â'r fideos.
- Hyrwyddo'r cyngor ymhlith y trigolion am y gallen nhw ystyried ei gyfarfodydd yn fwy adeiladol nag amser holi Prif Weinidog Llywodraeth San Steffan, er enghraifft.

### Manteision i'r cyngor

- Hwyluso presenoldeb o hirbell mewn cyfarfodydd – un o opsiynau Mesur 'Llywodraeth Leol' Cymru 2011 fel y caiff cynghorwyr gymryd rhan mewn cyfarfod o fan cyfleus.
- Annog cynghorwyr i amlygu safonau uchel ynglŷn â phresenoldeb, ymgysylltu ac ymddygiad mewn cyfarfodydd.
- Cyfleu gwybodaeth a phenderfyniadau allweddol yn fwy effeithiol i swyddogion ac i gynghorwyr eraill.
- Rhan ddefnyddiol o raglenni cyflwyno a hyfforddi cynghorwyr a swyddogion.
- Cyfle i gynghorwyr ddysgu arferion da trwy wylio cynghorwyr eraill a chyfle i hysbysu darpar gynghorwyr am eu rôl i hybu adnewyddu democrataidd.
- Llai o ymholiadau o'r wasg am y gall newyddiadurwyr wylio'r darllediadau bellach yn hytrach na gofyn am ddyfyniadau.
- Angen llai o le i'r cyhoedd mewn cyfarfodydd am bynciau poblogaidd neu ddadleuol.
- Defnyddio'r offer a'r lleoliadau i ddibenion eraill megis hyfforddi staff a chyfarfodydd rhwng awdurdodau.
- Rhoi cofnod cywir o bob cyfarfod gan helpu i fireinio'r cofnodion a rhwystro pobl eraill sydd wedi ffilmio cyfarfod rhag camddefnyddio 'uchafbwyntiau wedi'u golygu'.

## Anawsterau gweddarlledu

Mae rhai pryderon wedi'u mynegi am gostau gweddarlledu am ei fod yn cael ei gyflwyno ar adeg pan fydd cyllidebau'r cynghorau lleol yn crebachu'n fawr. Y prif gostau yw prynu neu logi'r offer a thalu am amser y staff fydd yn eu defnyddio.

Y gorchwyl pwysicaf i'r awdurdodau lleol bellach yw cymharu'r costau â'r buddion i weld a yw'n werth darlledu cyfarfodydd ar y we. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cydweithio ag WLGA a'r awdurdodau lleol i arbed arian trwy gaffael ar y cyd. Yn y dyfodol, efallai y bydd gweddarlledu'n eu helpu i arbed arian a chodi incwm trwy, er enghraifft: talfyrru'r cofnodion a'u defnyddio i gofrestru penderfyniadau yn hytrach na'r drafodaeth i gyd; rhoi offer ar log; treulio llai o amser wrth brosesu ceisiadau sy'n ymwneud â Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' (yn ôl tystiolaeth ddiweddar) am fod modd gwylio cyfarfodydd yn hawdd.

## Blogiau, trydar a ffilmio yn ystod cyfarfodydd

Mae tua hanner awdurdodau lleol Cymru yn gadael i'w cynghorwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd. Bydd rhai o blith y cyhoedd a'r wasg yn ffilmio cyfarfod weithiau, er bod angen caniatâd i wneud hynny fel arfer.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyfryngau cymdeithasol wedi ennill eu plwyf a'u bod o gymorth ar yr amod bod cynghorwyr yn eu defnyddio'n briodol. Mae awdurdodau sy'n rhwystro cynghorwyr rhag eu defnyddio yn gwneud hynny i'w hannog i ganolbwyntio ar y materion sydd o dan sylw ym mhob cyfarfod. Mae lle i'r cynghorwyr ystyried yr argraff y gallen nhw ei chyfleu i'r cyhoedd pe baen nhw wrthi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod trafodaeth, pleidleisio neu benderfynu.

Dyma ganllawiau WLGA i gynghorwyr ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol:
http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-cynorthwyo-a-datblygu-cynghorwyr1/cyfryngau-cymdeithasolcanllaw-i-gynghorwyr

## Deddfau a phrotocolau sy'n berthnasol i weddarlledu

### Deddf 'Diogelu Data'

Mae'n annhebygol y bydd Deddf 'Diogelu Data' yn effeithio ar ddarlledu cyfarfodydd y cynghorau am nad oes modd trafod gwybodaeth bersonol mewn cyfarfod cyhoeddus ni waeth a yw'r cyfarfod hwnnw'n cael ei ddarlledu neu beidio. Pan fo angen trafod unrhyw eithriad – lle na fydd modd i'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol – rhaid diffodd yr offer a rhoi neges sy'n esbonio pam nad yw'r darllediad ar gael am y tro.

### Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'

Ddylai Deddf 'Mynnu Gwybodaeth' ddim fod yn berthnasol i ddarllediadau chwaith achos mai dim ond â gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd eisoes mae'n ymwneud. Does dim rhaid i'r cyngor ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd wedi'i darlledu neu sydd ar gael trwy archif cyfarfodydd y wefan.

### Hawlfraint

Y cyngor yw 'awdur' gweddarlledIad boed gyfarfod mae'n ei ddarlledu'n fyw neu un sydd mewn archif. Fydd neb yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd y cyngor. Mae'n annhebygol y byddai'r cyngor yn mynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio i ddibenion dilys megis hysbysu neu hyfforddi, er enghraifft.

Byddai modd i'r cyngor fynd i'r gyfraith pe bai darllediad wedi'i ddefnyddio'n amhriodol ar gyfer gwleidydda neu ddychanu, er enghraifft. Rhaid i wefannau lledaenu fideos megis YouTube a Google Video ddweud yn yr amodau a'r telerau fod angen hawlfraint a chaniatâd pawb sydd yn y fideo cyn ei chyhoeddi yno.

## Caniatâd

Pan ddechreuwch chi ddarlledu ar y we, dylech chi siarad â phawb allai gymryd rhan yn y cyfarfodydd i ofalu eu bod yn fodlon cael eu ffilmio. Efallai y bydd rhai pobl yn gofyn am gyrsiau datblygu neu hyfforddi cyn cytuno.

Wrth ledaenu'r agenda, rhaid rhoi gwybod y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod. Cewch chi dybio wedyn fod pawb sy'n bresennol wedi cytuno i gael ei ffilmio a chytuno i'r fideo gael ei defnyddio yn y dyfodol, hefyd.

Ar ddechrau pob cyfarfod sydd i'w ffilmio, dylech chi gyhoeddi y byddwch chi'n darlledu'r cyfarfod yn fyw ac yn ei chyhoeddi ar y we i'w gwylio wedyn, hefyd. Ddylech chi ddim darlledu unrhyw drafodaeth am faterion cyfrinachol na'r rhai sy'n rhydd rhag amodau Deddf 'Mynnu Gwybodaeth'.

## Pleidleisio

Fydd gweithdrefnau pleidleisio ddim yn newid. Dylech chi weld gweddarlledu'n ffordd o ychwanegu at agwedd agored cyfarfod sy'n gyhoeddus ei natur beth bynnag. Bydd modd pleidleisio naill ai trwy ddangos llaw neu ddefnyddio sustem electronig y cyngor. Fe fydd pobl yn cael gweld sut mae cynghorydd wedi pleidleisio, yn ôl y sustem sydd ar waith.

## Dod â gweddarllediad i ben

Bydd y cadeirydd yn cael dod â'r darllediad i ben neu dorri ar ei draws fel y gwêl yn dda os yw o'r farn y byddai'n amharu ar waith y cyfarfod trwy barhau i'w ddarlledu. Er enghraifft:

(i) Pe bai anghydfod cyhoeddus yn torri ar draws y cyfarfod.

(ii) Lle y cytunwyd na ddylai'r cyhoedd na'r wasg fod yn bresennol.

(iii) Lle mae'r cadeirydd a'r pwyllgor yn cytuno y byddai darlledu'n amharu ar waith y cyfarfod.

## Golygu gweddarllediad

Mae'n amlwg nad oes modd golygu rhywbeth tra boch chi'n ei ddarlledu'n fyw. Felly, pe bai cynghorydd yn dweud rhywbeth amhriodol, sarhaus neu anghyfreithlon, fe ddylai'r cadeirydd ofyn iddo ymddiheuro yn syth. Mae modd golygu'r fideo wedyn. Yn wir, gan fod y deunydd sydd yn yr archif ar gael i'r cyhoedd, fe allech chi gyflawni trosedd trwy beidio â dileu cynnwys sarhaus megis sylwadau hiliol anfwriadol. O gyhoeddi unrhyw sylwadau difenwol, byddwch chi'n agored i achos sifil. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe gewch chi roi 'bib' yn eu lle. Anaml y bydd angen golygu fideo ond, mewn achos o'r fath, dylech chi gadw copi o'r fideo cyn ei golygu am y gallai fod ei hangen rywbryd.

# Medrau personol

## Yr olwg sydd arnoch chi

Bydd rhai medrau a mathau o ymddwyn y dylech chi eu cadw mewn cof wrth ymddangos mewn gweddarllediad. Gallai'r ystyriaethau isod fod o gymorth i chi:

- Peidiwch â symud yn ormodol! Gall gormod o symud amharu ar ansawdd y darlun a'i gwneud hi'n anodd i'r camera eich dilyn. Gallech chi ymddangos yn drwsgl wrth blygu i siarad trwy feicroffon ac, felly, mae rhai cynghorau lleol yn ystyried newid gweithdrefn eu cyfarfodydd fel y bydd cynghorau'n cael parhau ar eistedd yn eu cadeiriau.

- Wrth ystyried eich gwisg, rhaid cadw pob un o onglau'r camera mewn cof a gofalu nad ydych chi'n gwisgo dillad na gemwaith a allai gyffwrdd â'r meicroffon a rhwystro gwylwyr rhag clywed eich geiriau. Mae cadwyn y maer yn arbennig o debygol o wneud hynny!

- Peidiwch â gwylio'r darllediad yn fyw trwy'ch teclyn eich hun am y gallai hynny amharu ar ansawdd y sain.

- O siarad ag aelodau eraill, bwyta ac addasu'ch dillad yng ngolwg y camera, gallech chi dynnu sylw'r gwylwyr oddi wrth y sawl sy'n siarad os ydych chi y tu ôl iddo.

- Mae iaith y corff yn bwysig. O fethu ag eistedd yn unionsyth, gallech chi gyfleu argraff eich bod wedi colli diddordeb. O gau'ch llygaid, gallai pobl feddwl eich bod yn cysgu.

### Siarad

Er bod y rheolau cyffredinol am siarad yn gyhoeddus yn berthnasol i bob cyfarfod, mae rhai mathau o ymddygiad fydd yn eich helpu i ymddangos yn dda mewn darllediad fel y bydd y cyfarfod yn fwy diddorol a defnyddiol i'r gwylwyr. Yn anad dim, dylech chi fod yn naturiol!

- Siarad yn gryno heb fod yn hirwyntog.

- Osgoi siarad yn gyflym. Os ydych chi'n baglu dros eich geiriau, efallai eich bod yn rhuthro trwy'ch araith.

- Paratoi eich cyfraniad (bydd pwyntiau bwled yn eich galluogi i siarad yn naturiol heb ymddangos fel pe baech chi'n darllen araith).

- Bod yn effro i'r modd y gallai'r gynulleidfa ddehongli'ch negeseuon – eich geiriau a'r modd rydych chi'n eu dweud.

- Gallai fod angen egluro rhai pethau er gwybodaeth i'r lleygwyr. Wrth ddatgan unrhyw fuddiannau, er enghraifft, fe fyddai o gymorth pe gallech chi ddweud nid yn unig eich bod yn ymwneud â rhyw fater ond, hefyd, a ydych chi'n ymwneud ag e mewn modd personol neu niweidiol a sut rydych chi'n bwriadu gweithredu o ganlyniad.

- Osgoi jargon ac 'ieithwedd y cyngor' – mae hynny'n berthnasol i'r swyddogion hefyd!

- Mae'n anodd torri ar draws rhywun sy'n siarad mewn darllediad achos mai dim ond y cadeirydd a'r sawl sy'n siarad y bydd y gwylwyr yn eu gweld, fel arfer. Yn aml, fe fydd unrhyw sylwadau eraill yn annealladwy achos nad yw'r meicroffon yn ddigon agos.

- Gofalu eich bod yn ddigon agos at y meicroffon a'ch bod yn ei wynebu drwy'r amser. Ddylech chi ddim siarad nes y daw'ch golau ymlaen

neu, fel arall, fydd neb yn clywed eich geiriau cyntaf! Rhaid diffodd eich meicroffon ar ôl ichi orffen siarad.

- Bod yn effro i'r modd y gallai'r cyfryngau ddefnyddio'ch sylwadau.

### Medrau cadeirydd

Mae cadeirydd y cyfarfod yn hanfodol i'r gwylwyr fel pe baen nhw'n gynulleidfa yn y fan a'r lle. Dyma rai awgrymiadau y gallai cadeiryddion eu hystyried:

- Cyflwyno'r bobl allweddol fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod fel y bydd y gwylwyr yn gwybod pwy ydyn nhw (swyddogion, tystion a'r cadeirydd ei hun, wrth gwrs). Mae'n bwysig dweud beth yw rôl pawb yn y cyfarfod, hefyd.
- Esbonio rhai o weithdrefnau'r cyfarfod os na fyddan nhw'n amlwg i'r gwylwyr. Pan fo egwyl, er enghraifft, rhaid esbonio'r rheswm dros hynny a phryd y bydd y cyfarfod yn ailddechrau.
- Gorfodi pawb i orffen cyn pen hyn a hyn o amser – naill ai trwy weithdrefn ffurfiol neu trwy dorri ar draws rhywun mae'i gyfraniad yn un hir nad yw'n gynhyrchiol.
- Atgoffa pawb bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu ac y bydd ar gael ar y we wedyn.
- Esbonio amryw elfennau'r agenda megis mater er gwybodaeth, mater mae angen penderfynu arno a mater mae rhaid pleidleisio arno. O dorri ar draws darllediad am unrhyw reswm megis trafod materion cyfrinachol, dylech chi esbonio pryd y bydd yn digwydd a pham.
- A chithau'n gadeirydd, gallai fod angen ichi drin a thrafod offer megis sustem cynffon a chaniatâd y siaradwyr. Dylech chi ofalu eich bod yn gwybod sut mae'i defnyddio.

## Cyfleoedd yn y dyfodol

Fel y bydd gweddarlledu a'i dechnoleg yn datblygu, bydd modd defnyddio cyfleusterau gweddarlledu i wella ac ehangu nifer o weithgareddau'r cyngor.

Gan gynnwys:

- Cyfathrebu'n fyw â chynghorwyr a swyddogion trwy'r Rhyngrwyd i ddibenion megis cyfarfod hysbysu gan yr arweinydd neu'r prif weithredwr.
- Sesiynau hyfforddi – naill ai'n fyw neu wedi'u recordio – i'ch cyngor chi ac, o bosibl, i bob cyngor arall wedyn.
- Mwy a mwy o ymgysylltu â darllediadau trwy gyfryngau cymdeithasol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw.
- Cysylltu'n fyw mewn cyfarfodydd â grwpiau cymunedol ac ysgolion ar gyfer trafodaeth am gynlluniau a pholisïau.
- Cyfleoedd i 'hysbysebu' gwasanaethau'r cyngor a darlledu er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae technoleg gweddarlledu'n fan cychwyn galluogi cynghorwyr i gymryd rhan o hirbell yn y cyfarfodydd. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob cyngor ddatgan yn ei gyfansoddiad sut y bydd presenoldeb o hirbell ar gael yn ystod ei gyfarfodydd. Dyma ragor o wybodaeth:

http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-section-4-remote-attendance/?skip=1&lang=cy

## Gwylio darllediadau awdurdodau lleol eraill (dim ond yn Saesneg)

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | http://www.blaenau-gwent.public-i.tv/core/ |
| Bannau Brycheiniog | http://www.breconbeacons.public-i.tv/core/ |
| Caerdydd | http://www.cardiff.public-i.tv/core/ |
| Sir Gaerfyrddin | http://www.carmarthenshire.public-i.tv/core/ |
| Ceredigion | http://new.livestream.com/ceredigion/events/2493787 |
| Conwy | http://www.conwy.public-i.tv/core/ |
| Sir Ddinbych | http://www.denbighshire.public-i.tv/core/ |
| Sir y Fflint | http://www.flintshire.public-i.tv/core/ |
| Casnewydd | http://www.newport.public-i.tv/core/portal/home |
| Sir Benfro | http://www.pembrokeshire.public-i.tv/core/ |
| Powys | http://www.Powys.public-i.tv/core/portal/home |
| Torfaen | http://www.torfaen.public-i.tv/core/ |

# Enghreifftiau o'i ddefnyddio yn yr awdurdodau

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we yng ngwanwyn 2013. Ar ôl sefydlu cytundeb trwy'r prosesau arferol, gosododd cwmni public-i yr offer yn siambr y cyngor ym mis Awst 2013. Roedden ni o'r farn y byddai'n bwysig iawn hyfforddi'r cynghorwyr i gyd a'r swyddogion perthnasol (staff y gwasanaethau democrataidd sy'n cyflwyno adroddiadau'n fynych) gan ofyn i Melanie Doel (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i'w hyfforddi. Hyfforddodd hi garfanau bychain o gynghorwyr a swyddogion dros nifer o wythnosau a sesiynau gan eu galluogi i drafod unrhyw bryderon neu faterion. Gan fod Melanie Doel yn newyddiadurwr profiadol ac yn aelod o awdurdod oedd wedi bod yn darlledu cyfarfodydd ar y we ers peth amser, gallai hi roi digon o awgrymiadau a llawer o hyder i'r rhai o dan hyfforddiant.

Dechreuon ni ddarlledu cyfarfodydd y cyngor cyflawn a'r cabinet ar y we fis Hydref 2013, yn ogystal â darlledu'r diweddaraf am y gyllideb gan aelod y cabinet dros adnoddau a thri seminar i gynghorwyr am inni eu hystyried yn rhai fyddai o ddiddordeb arbennig i'r bobl. Staff y gwasanaethau democrataidd a'r gwasanaethau i gynghorwyr sy'n defnyddio'r offer – a hynny'n fedrus iawn – gyda chymorth cwmni public-i o hirbell yn ôl yr angen. Cyn darlledu cyfarfod, byddwn ni'n ei hysbysebu trwy gyfryngau cymdeithasol ynghyd â linc ag agenda'r cyfarfod fel y gall pobl gweld yr hyn sydd i'w drafod o flaen llaw.

Mae'r wyth gyfarfod cabinet oedd wedi'u darlledu hyd at 10fed Mehefin 2014 wedi denu 6,373 o wylwyr (1,641 yn fyw a 4,732 trwy'r archif) – 797 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae wyth gyfarfod y cyngor wedi denu 9,154 o wylwyr (2,987 yn fyw a 6,167 trwy'r archif) – 1,144 y cyfarfod ar gyfartaledd. Mae'r tri seminar wedi'u gwylio 1,849 o weithiau (385 yn fyw a 1,464 trwy'r archif) – 616 y cyfarfod ar gyfartaledd (mae'r seminar am y gyllideb wedi'i wylio 1097 o weithiau). Mae'r diweddaraf am y gyllideb wedi'i wylio 519 o weithiau (1 yn fyw a 518 trwy'r archif). Fis Ionawr 2014, penderfynon ni ddarlledu cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu pan fydden nhw o ddiddordeb arbennig i bobl, hefyd. Hyd yma, rydyn ni wedi darlledu pedwar cyfarfod sydd wedi'u gwylio 987 o weithiau (156 yn fyw ac 831 trwy'r archif) – 247 y cyfarfod ar gyfartaledd.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o staff y cyngor yn gwylio'r cyfarfodydd am yr hoffen nhw ddysgu rhagor am y modd mae'r cyngor, y cabinet a'r pwyllgorau'n gweithio, am eu bod yn ymwneud â rhai penderfyniadau neu am y byddai penderfyniadau o'r fath yn effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n gwybod bod trigolion y fro a phobl eraill ym myd llywodraeth leol ledled Cymru a'r tu hwnt yn eu gwylio, hefyd. Mae modd eu gwylio o unrhyw le, wrth gwrs. Allwn ni ddim nodi pwy yw'r gwylwyr na ble maen nhw ond mae'r sustem wedi cofnodi 8992 o gyfeiriadau unigryw. O blith y rheiny, mae 5,358 o bobl wedi gwylio un cyfarfod neu unwaith ac mae 3,634 wedi gwylio mwy nag un cyfarfod neu fwy nag unwaith. Gallai cyfeiriad unigryw gynrychioli unigolyn neu gylch o bobl megis cwmni lleol.

Dim ond lle i gynulleidfa fechan iawn (tua 20 o bobl) sydd yn siambr y cyngor ac, felly, mae'n amlwg bod gwaith y cyngor wedi cyrraedd miloedd o bobl na fydden nhw wedi'i weld fel arall. Mae'r cyngor o'r farn bod gweddarlledu'n well o lawer

ynglŷn â hyrwyddo agwedd agored, tryloywder a democratiaeth leol. Mae disgwyl y bydd y cyngor ar 24ain Mehefin 2014 yn penderfynu darlledu holl gyfarfodydd y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau dros gynllunio a thrwyddedu.

Mae'r cyfarfodydd, yr hyn sydd wedi digwydd ynddyn nhw a'r penderfyniadau sydd wedi deillio ohonyn nhw wedi bod yn destun cryn dipyn o drafod yn Nhor-faen yn ôl cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu. Mae pryderon sawl cynghorydd a swyddog am ddarlledu ar y we mewn angof ar y cyfan, achos bod pawb yn gyfarwydd â'r dull bellach ac wedi'i dderbyn yn rhan o'r trefniadau arferol. Mae lle i ddweud bod y cyfarfodydd yn fwy effeithlon ers cyflwyno darlledu am eu bod yn fyrrach, mae llai o ailadrodd ac mae tuedd i gadw at y materion o dan sylw. Does dim tystiolaeth bod pobl yn gyndyn o siarad ynddyn nhw o ganlyniad i'w darlledu, fodd bynnag. Ar wahân i'r darlledu, bydd cyfarfodydd yn mynd ymlaen yr un fath ag o'r blaen (er bod rhaid defnyddio'r un ystafell ar gyfer pob un) ond maen nhw wedi'u gwylio bron 19,000 o weithiau ychwanegol.

Y casgliad yw bod darlledu cyfarfodydd Tor-faen ar y we wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae'n amlwg ein bod wedi cyrraedd cynulleidfa enfawr newydd. Mae'r cyhoedd a'r staff wedi ymgysylltu â ni i raddau helaeth o ganlyniad i weddarlledu. Yr elfennau hanfodol yn y broses oedd arweiniad yr hoelion wyth, cefnogaeth y cynghorwyr a'r swyddogion (trwy'r cyngor cyflawn), hyfforddiant a sicrhad pobl oedd yn gyfarwydd â darlledu yn barod a'n hawydd ni i hybu ac agor democratiaeth.

Byddai CBS Tor-faen yn argymell pob cyngor i ddechrau darlledu cyfarfodydd ar y we.

## Cyngor Sir Powys

Datblygodd gweddarlledu ym Mhowys ar ôl darlledu un o gyfarfodydd y cyngor i ryw 2000 o bobl y tu allan i farchnad da byw'r Trallwng yn 2011. Roedd y cyngor wedi cwrdd yno i drafod materion ffermydd gwynt yn y sir.

Gan dybio y byddai cyfarfodydd yn neuadd y sir am ffermydd gwynt yn denu llawer o bobl o hynny ymlaen, penderfynodd y cyngor ystyried a fyddai modd rheoli nifer y bobl a ddaw yno a gofalu y gallai pawb a chanddo ddiddordeb yn y cyfarfodydd eu gweld yn haws trwy eu darlledu ar y we. Mae hynny wedi helpu'r cyngor i drefnu'r cyfarfodydd – a chan fod y staff sy'n ymwneud â'r broses yn brofiadol erbyn hyn, mae modd gwneud hynny'n gyflym.

Rhoes Llywodraeth Cymru £40,000 i'r cyngor ar gyfer gweddarlledu wedyn i ennyn diddordeb yn y syniad ymhlith cynghorau'r wlad a hwyluso rhagor o atebolrwydd a thryloywder yn eu gwaith.

Mae 17 cyfarfod ym Mhowys wedi'u gweld 23,395 o weithiau. Dyma enghreifftiau:

| | |
|---|---|
| Ffermydd gwynt mawr | 2705<br>2877 |
| Pwyllgor cynllunio | 1509<br>1301<br>1096<br>782 |
| Cyngor y sir | 1878 |
| Cyngor y sir – materion cyllidebol | 1804<br>3175 |
| Cabinet | 1731<br>1037 |
| Diwrnod dweud eich dweud (cyllideb) | 1951 |
| Pwyllgor craffu | 254 |

Mae nifer y gwylwyr wedi amrywio rhwng 150 a 490 ynglŷn â phedwar cyfarfod arall.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae awdurdod y parc cenedlaethol wedi bod yn darlledu cyfarfodydd yr awdurdod i gyd a'r pwyllgorau dros faterion cynllunio, archwilio a chraffu ers ychydig dros ddwy flynedd bellach. 31,500 yw cyfanswm y rhai sydd wedi'u gwylio. Ar gyfartaledd, mae cyfarfodydd awdurdod y parc cenedlaethol wedi'u gwylio 671 o weithiau. Mae cyfarfodydd pwyllgor y materion cynllunio wedi'u gwylio 556 o weithiau ac mae cyfarfodydd y pwyllgorau dros faterion archwilio a chraffu wedi'u gwylio 436 o weithiau. Mae cyfanswm y gwylwyr a nifer y gwylwyr ar gyfartaledd wedi parhau i gynyddu dros y ddwy flynedd ac mae cost pob gwylio wedi gostwng at 81c o'i chymharu â £2.40 ar y dechrau.

Dyma fanteision darlledu'n cyfarfodydd ni ar y we.

- Mae gweddarlledu'n annog pawb i lywodraethu'n dda a pharatoi'n dda ar gyfer y cyfarfodydd (aelodau a swyddogion fel ei gilydd).
- Mae cyfleoedd i ledaenu negeseuon ymhlith y cyhoedd yn wyneb beirniadaeth am ryw fater penodol.
- Mae cyfleoedd i aelodau roi adroddiadau am gyfarfodydd y buon nhw ynddynt neu achlysuron lle mae nhw wedi cynrychioli'r awdurdod, gan ddangos rôl ehangach yr aelod.
- Gall pobl weld Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno adroddiadau blynyddol am faterion gwella ac ymatebion yr aelodau (gan wrthod y casgliadau, weithiau).
- Gallwn ni logi cyfleusterau cyfarfod ynghyd ag offer gweddarlledu bellach (gallwn ni gynnal y cyfarfodydd naill ai yn ein hadeilad ni neu ar safleoedd y cwsmeriaid).
- Gallwn ni ymateb i honiadau nad yw materion wedi'u hystyried nac wedi'u trafod yn briodol trwy anfon linciau â'r trafodaethau perthnasol yn y cyfarfodydd. Gallwn ni brofi bod y cofnodion yn gywir, hefyd.
- Rydyn ni wedi defnyddio gweddarlledu ar gyfer cyflwyniadau mewn cyfarfodydd. Er enghraifft: yr Adran dros Faterion Diwylliannol, y Cyfryngau a Chwaraeon; Dŵr Cymru; Costain.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

- Darlledu'n rhaglen addysg ar y we.
- Cyfweld aelodau o ferched ar y we fel y gall Llywodraeth Cymru ac WLGA ddefnyddio'r fideos i hyrwyddo rôl merched yn ein bywyd cyhoeddus.
- Cyfweld aelodau am eu datblygu proffesiynol ar gyfer Breinlen Uwch Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at bynciau penodol.
- Lledaenu'n hadroddiad ni am gyflwr y parc.
- Cynnwys rhagor o bobl ym mhroses gynllunio strategol y parc trwy eu gwahodd i adolygu cynllun rheoli'r parc cenedlaethol.
- Darlledu seminarau am bynciau megis gwasanaethau a mastiau ffonau symudol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETH DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD PWYLLGOR:** | **18/09/2014** |
| **TEITL:** | **ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD AR GYNNYDD I'R PWYLLGOR** |

## 1. Cefndir

Rwyf wedi adrodd yn y gorffennol i'r Pwyllgor hwn mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau wedi eu gosod i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

Yn sgil etholiadau lleol yn 2013 gwnaed cais i Aelodau baratoi adroddiad blynyddol am y tro cyntaf am y cyfnod hyd at Mawrth 2014.

Dymunaf adrodd bod yr holl Aelodau wedi paratoi adroddiad am y cyfnod perthnasol a threfnwyd bod y rhain ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2014. Darparwyd cyhoeddusrwydd gan swyddfa'r wasg.

O ran adroddiadau i'r dyfodol rwy'n bwriadu ystyried arfer da ac, os oes angen, diweddaru'r canllawiau a baratowyd ar gyfer Aelodau.

O safbwynt adroddiadau ar gyfer 2014/15, awgrymir y dylai Aelodau baratoi adroddiadau drafft erbyn y 10 Ebrill, 2015 a'u hanfon i'r Gwasanaethau Democrataidd. Bwriedir cynnwys yr adroddiadau terfynol ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2015.

## 2. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**08/09/14**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 18 Medi 2014 |
| Teitl: | Grant Datblygu Gwefannau Cynghorau Tref a Chymuned – diweddariad |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid i Gynghorau Sir er mwyn iddynt gynnig grant o hyd at £500 yr un i gynghorau tref a chymuned, gan gynnwys y rhai hynny sydd â gwefan eisoes, i'w wario ar ddatblygu gwefannau.

1.2 Pwrpas y grant oedd cynorthwyo cynghorau tref a chymuned i baratoi ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n cynnwys darpariaethau lle byddai'n ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan.

1.3 Fe ddywedais wrth y Pwyllgor hwn ar 1 Hydref 2013 bod £20,000 o gyllid wedi ei ddyrannu tuag at gynorthwyo cynghorau tref a chymuned Ynys Môn i ddatblygu gwefannau a bod y dyraniad wrthi'n cael ei ddosbarthu i gynghorau cymuned. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Ionawr, 26 Mawrth a 19 Mehefin 2014.

**2.0 Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

2.1 Roedd yr arweiniad gwreiddiol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen defnyddio'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae awdurdodau lleol bellach wedi cael awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gario'r arian drosodd i'w ddefnyddio yn ystod 2014/15. Y rheswm am hyn yw er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd a galluogi cynghorau tref a chymuned i baratoi'n well ar gyfer y gofyniad i gael gwefan mewn lle erbyn y daw'r rhannau perthnasol o'r Deddf Democratiaeth Lleol (Cymru) 2013 i rym yn 2015.

2.2 Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dyrannu'r grant:

- 35 o gynghorau wedi hawlio'r grant
- 2 gyngor wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn bwriadu hawlio'r grant
- 1 cyngor wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn parhau i ystyried y mater
- 2 o gynghorau wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt yn bwriadu hawlio'r grant (mae gan un o'r cynghorau yma wefan mewn lle eisoes)

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **11 Medi 2014**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD PWYLLGOR:** | **19.9.2014** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2014/15** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR EI RAGLEN WAITH AR GYFER 2014/15** |

1.0 Bydd Aelodau yn ymwybodol mai prif swyddogaeth y Pwyllgor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill fel y gellir cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau'r gwasanaethau democrataidd.

1.1 Cyflwynais adroddiad i'r Pwyllgor ar y 26 Mawrth, 2014 ar y Rhaglen Waith arfaethedig ar gyfer 2014/15. Nododd y Pwyllgor y materion canlynol fel rhan o'i raglen waith am y flwyddyn:

- Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol;
- Gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell;
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol;
- Moderneiddio arferion gweithio;
- Y gyllideb ar gyfer 2015/16 a'i heffaith ar y Gwasanaethau Democrataidd.

1.2 Yn amodol ar unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor bwriedir trafod yn y cyfarfod nesaf y Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys adolygiadau datblygiad personol a chyfeirio at faterion a nodwyd gan Aelodau yn y ddau grŵp ffocws a gynhaliwyd ym mis Mehefin i adolygu trefniadau gwaith.

**Argymhelliad**

Derbyn adborth gan y Pwyllgor ac adolygu'r Rhaglen Waith.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**11.9.14**

This page is intentionally left blank